Dadansoddiad o Ymatebion i Ymgynghoriad Estyn Ynghylch y Trefniadau Newydd ar gyfer Arolygiadau Ardal

℗ Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol i ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo'r holl ddetholiadau a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu cyfaddasu a'u ffynhonnell a'u dyddiad yn cael ei ddatgan.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.
Tel: 029 2044 6446 Ffôn: 029 2044 6446

Dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Estyn ynghylch y trefniadau newydd ar gyfer arolygiadau ardal

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd Estyn ynghylch gynigion ar gyfer trefniadau newydd ar gyfer arolygiadau ardal, i'w cynnal yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r papur hwn yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan Estyn, ac yn nodi ymatebion Estyn ei hun i'r rhain. Mae cynigion diwygiedig ar gyfer arolygiadau ardal hefyd wedi'u paratoi, ac maent ar gael ar y wefan.

Mae newid i drefniadau statudol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad wedi arwain at rai newidiadau sydd wedi'u gwneud yn unol â'r amser penodol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad, a'r cynllun gweithredu cyfatebol. Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi'u hymgorffori yn yr arweiniad.

Darlun cryno

Cawsom wyth ymateb i'r ymgynghoriad. Dewisodd nifer o ymatebwyr ddarparu ymatebion ysgrifenedig manwl, yn ogystal â'r ffurflen ymateb arolygiad ardal drafft gyhoeddedig. Cafwyd ymatebion gan bob math o ddarparwyr, yn ogystal â chan undebau addysgu a darlithio.

Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

A gytunwch â'r cynigion a nodir yn y protocolau drafft?

Dewisodd un ymatebwr beidio ag ateb y cwestiwn, ond codwyd nifer o faterion yn yr ymateb ysgrifenedig. O'r saith ymateb, tueddodd 4 ohonynt gytuno a 3 ohonynt gytuno'n gryf â'r protocolau drafft.

Materion a godwyd mewn ymatebion ysgrifenedig

1. Rhaid i arolygiadau ardal gynnwys pob darparwr yn yr ardal sy'n cael ei harolygu

Ymateb Estyn

Bydd y darparwyr sy'n ymwneud ag arolygiadau ardal yn dibynnu ar natur yr arolygiad, a sampl y sefydliadau sydd eu hangen ym mhob achos. Ym mhob achos, byddwn yn ceisio cynnwys sampl gytbwys a chynrychiadol, ond efallai na fydd hyn yn cynnwys pob darparwr.

2. Rhaid lleihau'r baich biwrocrataidd ar ddarparwyr

Ymateb Estyn

Cytuno. Mae Estyn wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth lle bynnag bo'n bosibl. Byddwn yn ceisio defnyddio data sydd eisoes ar gael, yr adroddiadau hunan-asesu mwyaf diweddar a chyfyngu'n gofynion am ddogfennaeth i ddeunydd safonol, sydd yn hygyrch yn gyffredinol ym mhob sefydliad. Mae'r protocol arolygu drafft hefyd yn nodi, 'y caiff yr arolygiadau hyn eu cynllunio i gynnwys sampl gynrychiadol o waith ym mhob sector ar draws yr ardal lle na cheir tystiolaeth arolygu gyfredol eisoes.' Os ceir tystiolaeth arolygu sy'n llai na dwy flwydd oed, ni fydd angen arolygu'r darparwr hwn yn fanwl, ond yn hytrach nodi'n ddigonol newidiadau sydd wedi digwydd.

3. Rhaid i faterion Cymraeg/dwyieithog fod yn rhan sylfaenol o bob arolygiad ardal

Ymateb Estyn

Caiff addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ei gynnwys lle bynnag bo'n briodol, yng ngoleuni pwnc yr arolygiad a'r sampl a ddewiswyd.

4. A fydd cynhaliaeth ac arweiniad ar gyfer yr arolygiadau hyn, yn enwedig ar gyfer y sector gwirfoddol?

Ymateb Estyn

Bydd, fe fydd cynhaliaeth ac arweiniad ar gael drwy arweiniad a dogfennaeth gefndirol, arolygwyr cyswllt ôl-16, arolygwyr cofnodol ac arolygwyr ardal fel sy'n briodol. Caiff enwebeion eu hyfforddi hefyd cyn yr arolygiad.

5. A fydd Estyn yn osgoi dyblygu lle mae darparwyr AB yn gwasanaethu mwy nag un ardal CCAH?

Ymateb Estyn

Rydym yn nodi perygl hyn, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi cynnwys sefydliadau mewn arolygiadau olynol o ardaloedd gwahanol, a thrwy ddefnyddio tystiolaeth arolygu gyfredol lle bynnag bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn debygol o gael ei rheoli o leiaf yn rhannol gan y Cylch Gorchwyl Blynyddol i Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

6. A yw'r cyfnod arwain o dri mis yn ddigon hir ar gyfer arolygiadau mawr?

Ymateb Estyn

Rydym yn deall pa mor bwysig y bydd y cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiad ardal. Mae'r cynnig drafft yn nodi, 'caiff darparwyr mewn ardal a ddewisir ar gyfer arolygiad rybudd o dri mis ***fel arfer****. Caiff y rhybudd hwn ei roi i'r darparwr, y Cyngor Cenedlaethol a/neu'r AALl, fel sy'n briodol'.*

Yn achos arolygiadau ardal cymhleth, sy'n cynnwys darparwyr aml-sector, gall fod angen rhoi cyfnod arwain hwy. Felly, gallai'r cyfarfod gyda darparwyr gael ei gynnal cyn y cyfnod deufis a amlinellir yn y cynnig drafft.

7. Byddai'n anodd dod o hyd i berson (yr enwebai) a allai gynrychioli'r holl ddarparwyr gwahanol yn deg a rhoi adborth am bryderon, a cheisio tystiolaeth ychwanegol a chynnig cynhaliaeth i bob darparwr. Mae angen esbonio'r rôl yn fwy manw

Ymateb Estyn

Mae rôl yr enwebai eisoes wedi'i hymgorffori'n dda yn y sector ôl-16. Mae Estyn yn darparu hyfforddiant ar gyfer enwebeion newydd cyn yr arolygiad, a bydd yn parhau i weithredu'r swyddogaeth hon. Byddwn yn darparu arweiniad pellach am rôl yr enwebai ar gyfer arolygiadau ardal, ac am rôl y person cyswllt o bob sefydliad.

8. Mae angen i rôl yr enwebai a'r arolygwyr cofnodol gael ei hymestyn i gynllunio gweithredu dilynol

Ymateb Estyn

Cyfrifoldeb y rheiny sydd eisoes wedi'u nodi yn yr arweiniad yw paratoi'r cynllun gweithredu. Rôl Estyn yw arfarnu'r cynllun gweithredu, ac felly ni all gymryd rhan yn ei baratoi. Cyfrifoldeb y Cyngor Cenedlaethol – ELWa yw datblygiad dilynol ôl-arolygiad yn sgil ei rôl yn sicrhau ansawdd. Bydd Estyn yn ymwneud ag unrhyw ail-arolygiad sydd ei angen yn sgil darpariaeth ansawdd gwael.

9. Dylai cyflogwyr gydnabod bod gan unrhyw arolygiad effaith ar faich gwaith staff.

Ymateb Estyn

Nod Estyn fydd sicrhau bod cyflogwyr yn ymwybodol o ofynion yr arolygiadau hyn. Nod Estyn hefyd fydd lleihau goblygiadau baich gwaith. Ni ddylai'r sefydliadau hynny â systemau ansawdd effeithiol ganfod bod arolygiad yn afresymol o feichus. Mae arweiniad i arolygwyr yn pwysleisio Côd Ymddygiad ar gyfer ymddygiad pob arolygydd, sy'n gofyn i bob arolygydd ystyried holl agweddau eu hymddygiad a cheisiadau am wybodaeth yn ofalus. Byddwn hefyd yn defnyddio tystiolaeth arolygu gyfredol bresennol, ac yn sicrhau sampl briodol o'r ddarpariaeth yr ydym yn ei harolygu.

10. A fydd arolygiadau ardal yn darparu gwybodaeth fanwl i alluogi'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa i adolygu digonolrwydd a helaethrwydd y ddarpariaeth, ac efallai gwneud penderfyniad i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer darparwr penodol?

Ymateb Estyn

Bydd. Bydd cyfnod un arolygiad ardal yn nodi nifer o faterion, gan gynnwys:

- *graddau'r cyfleoedd dysgu a'r cwricwlwm sydd ar gael; a*
- *graddau'r cydweithredu a'r cysylltu.*

Bydd cyfnod dau hefyd yn nodi:

- *pa mor dda mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a buddiannau dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach.*

Mae atodiad dau y protocol drafft hefyd yn nodi'r materion canlynol o dan bennawd y cwricwlwm a'r rhaglenni sydd ar gael:

- *dadansoddiad o nifer y cymwysterau sydd ar gael gan y darparwyr gwahanol, mewn grwpiau oedran gwahanol, a'u helaethrwydd;*
- *ehangder y cwricwlwm sydd ar gael;*
- *cydweithrediad cwricwlwm; a'r*
- *cydweddu rhwng hyfforddiant yn y gwaith ac anghenion diwydiannol.*

Felly, bydd gwaith Estyn yn darparu tystiolaeth a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa i lunio barnau am ddigonolrwydd a helaethrwydd y ddarpariaeth.

Rhestr yr ymatebwyr

CWVYS – Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Network training services Ltd
CPU – Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd
CYDAG – Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
UDPCh – Undeb Darlithwyr Prifysgolion a Cholegau
Coleg Gwent